

Cyfarwyddiadau ar yr Offeryn Ôl Troed Ynni

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru darged o garbon sero net erbyn 2030. Mae'r Offeryn Ôl Troed Ynni yw un math o offeryn rydym wedi'i ddatblygu i fonitro ein cynnydd. Gan ddefnyddio data defnydd ynni ar gyfer adeilad eich eglwys(i), mae'r Offeryn Ôl Troed Ynni yn cyfrifo faint o garbon ("yr ôl troed carbon") y mae pob adeilad wedi'i gynhyrchu dros y flwyddyn galendr flaenorol. Mae'r cyfrifiad yn eich helpu i ddeall eich man cychwyn a faint o gynnydd rydych yn ei wneud bob blwyddyn.

Mae'r offeryn yn hawdd ei ddefnyddio, mae ar gael i holl eglwysi'r Eglwys yng Nghymru, a bydd yn ein cynorthwyo i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd.

I Cyn i chi ddechrau

Cofiwch y bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch cyn dechrau:

- Ffigwr defnydd ynni ar gyfer y flwyddyn **galendr** flaenorol.
 - o Gall ddod ar ffurf kWh a ddefnyddir, A/NEU gost (£).

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ddewisol:

- Amcangyfrif o faint yr adeilad (mewn metrau sgwâr). Efallai bod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chofnodi ar eich cyfer.
- Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n ymweld â'r eglwys ar gyfartaledd (naill ai mewn wythnos neu mewn blwyddyn).
- Amcangyfrif nifer yr oriau mewn wythnos y mae'r eglwys ar agor.
- Amcangyfrif o nifer y milltiroedd NEU o arian sy'n cael ei hawlio ar gyfer teithio yn ymwneud â gwaith ar draws y flwyddyn.

2 Mewngofnodi i'r system

Ewch i <https://eft-wales.parishreturns.info>

- Bydd yr hafan yn ymddangos. Ewch i'r adran Defnyddwyr yr Eglwys. Defnyddwyr tro cyntaf, cofrestrwch yn gyntaf.

The screenshot shows the website interface for 'YR EGLWYS YNG NGHYMRU / THE CHURCH IN WALES'. The main heading is 'Pecyn Cymorth Ynni yng Nghymru'. There are two main sections: 'Defnyddwyr Esgobaethol' and 'Defnyddwyr yr Eglwys'. The 'Defnyddwyr yr Eglwys' section has two buttons: 'Mewngofnodi' and 'Cofrestru'. Red arrows point from text boxes on the right to these buttons. The text boxes contain instructions: 'Mewngofnodwch gyda'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair' (pointing to 'Mewngofnodi') and 'Defnyddwyr tro cyntaf, cofrestrwch yn gyntaf' (pointing to 'Cofrestru').

Defnyddwyr Esgobaethol
Cysylltwch â gweinyddwr os nad oes gennych gyfrif eto.
Mewngofnodi

Defnyddwyr yr Eglwys
Os nad oes gennych gyfrif eto, bydd angen i unigolyn cyswllt eich Esgobaeth roi cyfrinair untro i chi fel bod modd i chi gofnodi data ar gyfer eich eglwys. Bydd angen i chi ddefnyddio'r cyfrinair hwn unwaith yn unig wrth gofrestru, ac wrth gofrestru gofynnir i chi greu enw defnyddiwr a chyfrinair ar wahân i fewngofnodi i'r system o hyn ymlaen.
Mewngofnodi
Cofrestru

Mewngofnodwch gyda'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair

Defnyddwyr tro cyntaf, cofrestrwch yn gyntaf



Bydd angen creu Enw defnyddiwr o'ch dewis chi

Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost

Bydd angen creu cyfrinair i gael mynediad i'r Offeryn Ôl Troed Ynni

Mewngofnodwch gyfrinair yr Adeilad - y cod wyth digid – a gafodd ei anfon atoch ar gyfer eich eglwys

- Os ydych wedi cofrestru'n flaenorol, cliciwch "Mewngofnodi" i gofnodi neu i weld eich data a rhowch eich manylion.
- Bydd tudalen Dangosfwrdd Eglwys yn ymddangos.

Yn dangos % yr Offeryn Ôl Troed Ynni sydd wedi'i gwblhau ac a yw'r data a fewngofnodwyd wedi'i gyflwyno i'r system

Cliciwch ar "Mewngofnodi'r Data"

Dangosfwrdd yr Esgobaeth / Rhestr Eglwysi / Dangosfwrdd Eglwys

Defnydd o Ynni ar gyfer Offeryn Ôl Troed Ynni mewn 2021
148 wedi cwblhau | [Hwb ei Gyflwyno](#)

[Mewngofnodi'r Data](#)
[Cyflwyno](#)
[Allosod Cofnod Data](#)

Manylion Eglwys

Enw	Test Church 08
Categori	Eglwys
esgobaeth	Test Diocese
Tref	RHUTHUN
Cod Post	LL1 8XX
Nodiadau	-



- Cliciwch "Mewngofnodi'r Data".

3 Mewngofnodi eich data

Gallwch nawr ddechrau mewngofnodi'r data canlynol:

Adeiladau a Thanwyddau a ddefnyddiwyd

- Mae'r cwestiwn cyntaf yn gofyn: "Am faint o adeiladau hoffech chi gofnodi data?". Mae'r uchod yn berthnasol os oes gennych nifer o adeiladau neu flociau, gyda darlleniadau mesuryddion gwahanol ar gyfer pob un. Bydd hyn yn lluosu'r ffurflen i'ch galluogi i fewngofnodi eich data ar gyfer y gwahanol adeiladau/blociau.
- Nesaf, nodwch **bob** ffynhonnell ynni y mae'r adeilad yn ei ddefnyddio, gallwch glicio mwy nag un opsiwn. Yn yr enghraifft waith, mae'r eglwys yn defnyddio olew a thrydan fel ffynonellau ynni.

Defnydd Ynni

Ar y dudalen 'Defnydd Ynni', cofnodwch y wybodaeth ynni berthnasol am eich cwmni ynni a lle bo modd defnydd ynni ar gyfer y flwyddyn galendr flaenorol (mewn kWh, Metrau Ciwbig, 100au Troedfedd Ciwbig neu litrau yn flynyddol, neu gost y math o ynni blynyddol o £).

Enghraifft waith:

- Dim tariff ynni adnewyddadwy
- 5000 kWh trydan
- 500 litr o olew
- Dim gwrthbwyso



- **Tariff ynni adnewyddadwy?** Tariffau cwbl adnewyddadwy yw'r rhai sy'n cael eu cynnig gan gwmnïau ynni sy'n prynu, cynhyrchu a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Mae'r tariffau gwyrddaf gyda chwmnïau sy'n prynu tystysgrifau ynni adnewyddadwy ynghyd â'r pŵer y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef. Mae cwmnïau ynni sydd dim ond yn prynu Ynni Adnewyddadwy Gwarant o Darddiad (REGO)-ac yn cael ynni o'r farchnad gyfanwerthu yn cael eu heithrio.
- **A yw eich tariff yn gwrthbwysu 100% o'ch ynni?** Mae rhai cwmnïau ynni yn gwrthbwysu carbon yr ynni (Cydbwysu eich allyriadau drwy gael gwared ar garbon) rydych yn ei ddefnyddio drwy fuddsoddi a chefnogi prosiectau sy'n lleihau neu'n storio carbon - byddant yn datgan a ydynt yn gwneud ar eu gwefan. Os nad ydych yn gwybod a yw eich cwmni ynni yn gwrthbwysu eich ynni, ticiwch 'ddim yn siŵr'.
 - o Wrth symud ymlaen i'r dudalen nesaf, efallai y cewch neges "Ydych chi'n siŵr?" os oes unrhyw lefydd gwag. Os ydych am barhau, pwyswch y botwm "Parhau".

Maint yr adeilad

- Ar y dudalen hon mae gwybodaeth ddemograffig ddewisol yn cael ei gofyn am yr adeilad.
- **Ôl troed yr adeilad** (metrau sgwâr).
 - o Bydd y rhan hon wedi ei llenwi ymlaen llaw ar gyfer y rhan fwyaf o eglwysi.
 - o Os nad yw'r rhan hon wedi ei llenwi ymlaen llaw, mae croeso i chi amcangyfrif maint yr adeilad.
 - ✦ Maint eglwys gyfartalog yw tua 400m²
 - ✦ Mae eglwys fawr tua 650-1200m²
 - ✦ Mae eglwys fechan tua 100-250m²
- **Presenoldeb cyfartalog.**
 - o Amcangyfrifir y byddai'n ymgorffori unrhyw berson a fyddai'n mynd i mewn i'r adeilad (gan gynnwys gwasanaethau, grwpiau, priodasau, ymwelwyr ac ati) ar draws wythnos/blwyddyn gyfartalog (bydd pa bynnag ateb y rhoddwch chi yn llenwi'r llall).
 - o Er enghraifft:
 - ✦ Ar gyfartaledd mae 50 o bobl yn mynychu gwasanaethau yn wythnosol = 2600 y flwyddyn.
 - ✦ Ar gyfartaledd mae 20 o bobl yn ymweld mewn wythnos = 1040 y flwyddyn.
 - ✦ Mynegiant newydd sydd â 10 o bobl yr wythnos = 520 y flwyddyn.
 - ✦ Gyda chyfartaledd o 1000 o bobl yn mynychu priodasau ar draws blwyddyn = 19 yr wythnos.
 - ✦ Yn gyfan gwbl, byddai hyn yn rhoi tua 100 o bobl yr wythnos a 5000 o bobl y flwyddyn.
 - ✦ **Cofiwch, dim ond amcangyfrif sydd angen neu'r dyfaliad gorau, peidiwch â threulio gormod o amser ar hyn!**
- **Nifer yr oriau y mae'r eglwys ar agor mewn wythnos gyfartalog.**
 - o Mae 168 awr mewn wythnos lawn. Hyd yn oed os yw eich eglwys ar agor 24 awr y dydd, nodwch nifer yr oriau y mae'n cael ei defnyddio yn hytrach na nifer yr oriau y mae wedi'i datgloi.
 - o Unwaith eto, peidiwch â threulio gormod o amser ar hyn, mae amcangyfrif neu ddyfaliad gorau yn fwy na digon.



Ôl troed yr adeilad (metrau sgwâr)

200

Presenoldeb ar Sul arferol (personau)

50

Presenoldeb yn ystod yr wythnos arferol (personau)

Rhowch amcangyfrif bras o gyfanswm nifer defnyddwyr eraill yr eglwys (e.e. mynychwyr grwpiau eglwys/cy dosbarthiadau, gwasanaethau arbennig, ymwelwyr achlysurol) mewn wythnos nodweddiadol

Nifer yr oriau y mae'r eglwys ar agor yn ystod wythnos gyffredin

11.00

Yn ôl Nesaf

Enghraifft waith:

- 200 metr sgwâr
- 50 yn bresennol yr wythnos ar gyfartaledd
- 11 awr y mae'r eglwys ar agor




- **Treuliau Teithio sy'n Gysylltiedig â Gwaith.**
 - o P'un ai a gyflwynwyd unrhyw hawliadau treuliau teithio sy'n gysylltiedig â gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
 - o Os felly, faint? – Gellir rhoi'r ateb naill ai fel Nifer y Milltiroedd neu'r Gost a Hawlir (£).
 - o Eto, os nad yw'r wybodaeth yn hawdd dod o hyd iddi/yn hysbys, peidiwch â threulio gormod o amser ar y cwestiwn hwn – naill ai dyfalwch neu ei adael yn wag.

4 Tudalen Ganlyniadau

Wrth gwblhau'r Offeryn Ôl Troed Ynni, mae'n bosibl arbed a dychwelyd i'ch ffurflen yn ddiweddarach.

- Unwaith y byddwch yn fodlon bod eich holl ddata wedi ei gofnodi, cliciwch ar y botwm 'cyflwyno' i gyflwyno eich ffurflen Offeryn Ôl Troed Ynni. **Cofiwch glicio "Cyflwyno" ar frig y dudalen!**



Pan fyddwch yn fodlon bod eich holl ddata wedi ei gofnodi, cliciwch "Cyflwyno"

- Allyriadau CO2 gros (tunelli): Cyfanswm yr allyriadau a briodolir i'r ynni a ddefnyddir gan yr adeilad hwnnw.
- Allyriadau CO2 net (tunelli): Cyfanswm yr allyriadau a briodolir, minws yr allyriadau a briodolir gan gyflenwyr ynni gwyrdd/adnewyddadwy ardystiedig.
- Y Gwrthbwysu a Adroddwyd (tunelli): Mae nifer yr allyriadau a adroddwyd yn cael eu gwrthbwysu gan y cyflenwyr ynni.
- Allyriadau fesul sgôr m2: Sy'n cyfateb i Dystysgrifau cenedlaethol Ynni i'w Harddangos ar gyfer adeiladau cyhoeddus.
- Canradd CO2 Net: Sut mae eich ôl troed net yn cymharu â phob eglwys yn yr Eglwys.


Enghraifft waith:




Canlyniadau

Allyriadau CO ₂ gros (Tunelli)	3.2
Allyriadau CO ₂ net (Tunelli)	3.2
Allyriadau CO ₂ (kg) fesul m ²	18.2
Oriau person/blwyddyn	2,600
Allyriadau CO ₂ (kg) fesul awr person	1.248

Allryriadau fesul sgôr m²



Canradd CO₂ Net



5 Beth nesaf?

A chithau bellach wedi cyfrifo a chyflwyno eich ôl troed carbon, mae'r adran hon yn amlinellu rhywfaint o adnoddau a chynghor lle gallwch gael gwybodaeth ychwanegol.

